



# TGAU/GCSE LLYFRYN OPSIYNAU OPTIONS BOOKLET

Arweiniad i ddisgyblion a rhieni  
Guidance for pupils and parents

# Croeso gan y Pennaeth

## Headteacher's Welcome

### Annwyl Ddisgybl Blwyddyn 9 a'u Rhieni/ Gofalwyr,

Rydych ar fin cychwyn ar un o'r teithiau mwyaf cyffrous yr ydych wedi'i brofi yn yr ysgol hyd yma. Mae penderfyniadau am bynciau y byddwch yn eu hastudio yn CA4 yn eithriadol bwysig a byddant yn effeithio arnoch am weddill eich oes. Felly, fe'ch anogaf i ystyried eich opsiynau yn ofalus ac i wneud defnydd da o'r cyfoeth o gymorth sydd ar gael i'ch helpu i wneud dewisiadau rhagorol.

Rydym yn cynnig ystod o bynciau ar lefel TGAU a Galwedigaethol ac mae dewis y cyfuniad o bynciau sy'n eich galluogi i wireddu eich breuddwydion a'ch dyheadau yn y dyfodol yn gofyn i chi ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys (ond nid yn unig):

- Pa bynciau ydych chi'n eu mwynhau?
- Ym mha bynciau ydych chi'n fwyaf tebygol o lwyddo?
- Pa gyfuniad o bynciau fydd yn eich galluogi i ddilyn eich uchelgais o fewn addysg (e.e. Safon Uwch a Gradd) a gwaith/gyrfa yn y dyfodol?
- Pa gyfuniad o bynciau fydd yn cadw eich opsiynau ar agor os nad ydych yn gwybod beth fydd eich llwybr yn y dyfodol ar hyn o bryd?

Beth bynnag yw eich penderfyniad, rwy'n eich cynghori yn gryf i selio eich penderfyniadau ar yr hyn sydd ei angen arnoch ar gyfer eich dyfodol, gan wrthsefyll unrhyw demtasiwn i gael eich dylanwadu gan ddewisiadau eich ffrindiau. Mae eu huchelgeisiau a'u gobeithion nhw ar gyfer y dyfodol yn debygol o fod yn wahanol iawn i'ch rhai chi. Hefyd, mae'n hanfodol bwysig i chi ymgynghori â'ch athrawon a gwrando yn astud ar eu cyngor. Maent yn eich adnabod yn dda a bydd ganddynt ddealltwriaeth wych o'ch sgiliau a'ch doniau, ac os y bydd rhain yn eich galluogi i lwyddo yn eu pynciau.

Unwaith y bydd y broses hon wedi dod i ben, rwy'n hyderus, os dilynwch y cyngor a roddir ac os byddwch yn gwneud y dewisiadau cywir, y gwnewch fwynhau profiadau eang a llawer o lwyddiannau yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae gennym dîm hynod ymroddedig a thalentog o staff yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgylb yn cael yr addysg orau a'r cyfleoedd allgyrsiol gorau i gyflawni eu breuddwydion a'u dyheadau personol.

Gobeithiaf bydd y llyfryn yma yn ddefnyddiol ac edrychwn ymlaen at gydweithio â chi er mwyn sicrhau eich bod yn mwynhau dyfodol disgrair.

Yn gywir

**Mr R. Angell Jones**  
Pennaeth



### Dear Year 9 Pupil and Parents/ Carers,

You are about to embark on one of the most exciting journeys that you have experienced in school to date. Decisions about subjects that you will study in KS4 are hugely important and will impact on the rest of your life. As such, I encourage you to think carefully about your options and to make good use of the wealth of support that is available to assist you in making excellent choices.

We offer a range of subjects at GCSE and Vocational levels and choosing the combination of subjects that enable you to achieve your dreams and aspirations in the future requires that you consider a range of factors, including (but not exclusively):

- Which subjects do you enjoy?
- In which subjects are you most likely to succeed?
- Which combination of subjects will enable you to pursue future ambitions in education (e.g. A'levels and Degree) and work/ career?
- Which combination of subjects will keep your options open if you are currently undecided about your future pathway?

Whatever you decide, I strongly advise that decisions are based on what you need for your future and resist the temptation to be influenced by the choices of your friends, as their ambitions and future destinations are likely to differ greatly to yours. Also, I cannot stress strongly enough the importance of consulting with and listening to the advice of your teachers. They know you well and will have a good understanding of your skills and aptitudes, and whether these will enable you to succeed in their subjects.

Once this process has concluded, I am confident that if you follow the advice given and make the right choices, you will enjoy varied experiences and many successes during the next two years. We have an incredibly dedicated and talented team of staff at Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg who are committed to ensuring that every pupil is provided with the best education and the best extracurricular opportunities to achieve their individual dreams and aspirations.

I trust that you will find this booklet useful and look forward to providing support that guides you to a successful future.

Yours sincerely

**Mr R. Angell Jones**  
Headteacher

# Addysg Bersonol a Chymdeithasol

## Personal and Social Education

Ceir pum elfen o fewn gweithgareddau ABCh yng nghyfnod allweddol 4:

- Dinasyddiaeth weithgar
- Iechyd a lles emosynol
- Datblygiad Moesol ac ysbrydol
- Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes
- Datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Cyfeirir at faterion allweddol o fewn pob elfen. Trwy astudio'r materion hyn, bydd disgylion yn datblygu sgiliau meddwl a chyfathrebu, gweithio gydag eraill a gwella dysgu eu hunain. Mae yna hefyd pwyslais ar sgiliau rhifedd a llythrennedd o fewn gweithgareddau penodol.

### Dinasyddiaeth weithgar

Annogir disgylion I ddatblygu parch i'w hunain ac eraill, i werthfawrogi amrywiaeth, hawliau dynol ac i gyfranogi yn ymarferol yn y gymuned. St

Enghraift o weithgareddau a meysydd astudio sydd ar gael i fyfyrwyr cyfnod allweddol 4:

- Y gyfraith a hawliau.
- Digartrefedd; hawliau pobl ifanc a materion sy'n effeithio'r gymdeithas.
- Diwrnod ffug etholiadau ysgol gyfan.
- Gwleidyddiaeth yng Nghymru y DU a'r Undeb Ewropiaidd.
- Cyfleoedd i godi arian dros elusenau.
- Hawliau Dynol.

### Iechyd a Lles Emosynol

Annogir myfyrwyr i dderbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corf yn ddiogel a iach. Rhoddir cyfle iddynt ddatblygu agwedd gyfrifol at gydberthnasau personol, gan gynnwys cydberthnasau rhywiol.

Enghraift o weithgareddau a meysydd astudio sydd ar gael i fyfyrwyr cyfnod allweddol 4:

- Diogelwch we.
- Diogelwch ffyrdd.
- Alcohol a chyffuriau; dylanwad y cyfryngau, canlyniadau cyfreithiol a chymdeithasol defnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon.
- Lles emosynol; hunan werth, hunan ddelwedd, anhwylder bwyd.
- Cydberthnasau iach; rhyw a rhywioldeb, camdriniaeth domestig a chydberthnasau sydd ddim yn iach Cydymio Rhywiol LGBT.

### Datblygiad Moesol ac Ysbrydol

Bydd disgylion yn ystyried sut mae credoau a gwerthoedd yn effeithio'u ymdeimlad o hunaniaeth a rhoddir y cyfle iddynt drafod ac ystyried y ffactorau sy'n ymwneud â llunio barn foesol.

Enghraift o weithgareddau a meysydd astudio sydd ar gael i fyfyrwyr cyfnod allweddol 4:

- Lles Emosynol; hunan weth, hunan ddelwedd a'r gwerthoedd sy'n llywio bywydau pobl.

### Datblygu ar gyfer Dysgu Gydol Oes

Ym mlwyddyn 11 rhoddir y cyfle i fyfyrwyr brofi ffug gyfweliad gyda phobl proffesiynol o'r byd gwaith.

Enghraift o weithgareddau a meysydd astudio sydd ar gael i fyfyrwyr cyfnod allweddol 4:

- Ffug gyfweliad
- Cwblhau cofnod Llwybrau Dysgu
- Sgiliau Cyflogaeth

### Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang

Trwy weithgareddau yn y dosbarth a gweithgareddau ysgol gyfan, annogir disgylion i adnabod hawliau cenedlaethau'r dyfodol a arwyddocâd eu penderfyniadau, gweithredoedd a ffordd o fyw.

Enghraift o weithgareddau a meysydd astudio sydd ar gael i fyfyrwyr cyfnod allweddol 4:

- Materion byd-eang yn ymwneud â masnachu pobl ac effaith ein bywydau ar blant mewn gwledydd eraill.
- Masnach deg a bwyd lleolp.
- Ôl Troed Carbon, Lleihau, Aildefnyddio, Ailgylchu. Gwastraff dŵr, trydan. Effaith teithio ar yr amgylchedd.



## Personal and Social Education

Pupils will study five elements within PSE in Key Stage 4:

- Active Citizenship
- Health and Emotional Wellbeing
- Moral and Spiritual Development
- Preparing for Lifelong Learning
- Sustainable Development and Global Citizenship

There are key issues in each element to be addressed by the students. Through their study of these issues, students will develop thinking and communication skills, work with others and improve their own learning. There is also some emphasis on numeracy and literacy skills in selected units of work.

### **Active Citizenship**

Students are encouraged to develop respect for themselves and others, to value diversity, human rights and to engage in practical involvement in the community.

Some of the activities and areas of studies available to students in key stage 4 are:

- The law and our rights
- Homelessness; young people's rights and issues affecting our society
- Gangs and knife crime; effects on the community
- Take part in the school election day
- Politics in Wales, the UK and the European Union,
- Opportunities to raise money for charity

### **Health and Emotional Wellbeing**

Students are encouraged to accept responsibility for keeping the mind and body safe. They are given the opportunity to develop responsible attitudes towards personal relationships, including sexual relationships.

Some of the activities and areas of studies available to students in key stage 4 are:

- Internet Safety
- Road Safety
- Alcohol and drugs; influence of the media, the social and legal consequences of the use of legal and illegal substances.
- Emotional Wellbeing; self-esteem, self-image, eating disorders.
- Healthy relationships; sex and sexuality, domestic abuse and unhealthy relationships, Sexual consent, LGBT.

### **Moral and Spiritual Development**

Students will consider how beliefs and values affect their sense of identity and they will have the opportunity to discuss and consider the factors involved in making moral judgements.

Some of the activities and areas of studies available to students in key stage 4 are:

- Emotional Wellbeing; self-esteem, self-image and the values by which we live.

### **Preparing for Lifelong Learning**

Students in year 11 students are given the opportunity to experience a mock interview, conducted by professionals from the world of work.

Some of the activities and areas of studies available to students in key stage 4 are:

- Mock interview
- Complete Learning Pathways
- Employment Skills

### **Sustainable Development and Global Citizenship**

Through activities within the class and whole school activities, students are encouraged to recognise the rights of future generations and the significance of their decisions, actions and choice of lifestyle.

Some of the activities and areas of studies available to students in key stage 4 are:

- Global issues relating to child soldiers and the mining of elements for luxuries such as mobile phones.
- Fair trade and local food.
- Carbon Footprint, - Reduce, Reuse, Recycle. Water and Electric Wastage. Effects on travel on the environment.



# Addysg Gorfforol

## Physical Education

### Amcanion y Cwrs

- Annog arfer ac astudio Addysg Gorfforol mewn modd pwrrpasol a phleserus;
- Rhoi cyfle i'r disgylion gymryd rhan mewn cwrs eang a chytbwys mewn addysg gorfforol;
- Caniatáu i'r disgylion ddewis gweithgareddau ymarferol sy'n ystyried cyrhaeddiad blaenorol, diddordeb personol a lefelau unigol o gymhelliant;
- Galluogi'r disgylion i gaffael hunan-dyb, parch tuag atynt hwy eu hunain a thuag at eraill ac i ddatblygu ymrwymiad i ffordd fywiog o fyw;
- Sicrhau bod elfennau theori y cwrs yn codi'n naturiol o'r gweithgareddau ymarferol.

### Nodau'r Cwrs

- Datblygu a chymhwysyo eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o addysg gorfforol drwy weithgareddau ymarferol dewisedig;
- Datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwahanol ffactorau sy'n effeithio ar gymryd rhan a pherfformiad, ac arddangos y berthynas rhwng dynt;
- Deall swyddogaeth rheolau a chonfensiynau mewn gweithgareddau dewisedig;
- Hybu eu dealltwriaeth o'r buddion iechyd a'r risgau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol;
- Datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddadansoddi a gwella perfformiad;
- Cynorthwyo eu datblygiad personol a chymdeithasol drwy gymryd swyddogaethau gwahanol mewn gweithgareddau dewisedig wrth weithio gydag eraill.



### Crynodeb o'r Asesiad

#### Uned 1: Cyflwyniad i Addysg Gorfforol

Papur Ysgrifenedig: 2 awr  
100 o farciau (50% o'r cymhwyster)

Asesir dysgwyr drwy amrywiaeth o gwestiynau atebion byr a chwestiynau ysgrifennu estynedig. Bydd y cwestiynau'n seiliedig ar ysgogiadau clyweledol a ffynonellau eraill.

#### Uned 2: Y Cyfranogwr Gweithredol mewn Addysg Gorfforol

Asesiad di-arholiad  
100 o farciau (50% o'r cymhwyster)

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu fel perfformiwr mewn tri gweithgaredd gwahanol yn o leiaf un gamp unigol, un gamp tîm ac un arall. Bydd un o'r gweithgareddau hyn yn brif weithgaredd a bydd rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn.



# Addysg Gorfforol

## Physical Education

### **Objectives of the course**

- To encourage the purposeful and enjoyable practice and study of physical education;
- To allow pupils the opportunity to participate in a broad and balanced course in physical education;
- To allow pupils to select practical activities that take account of previous achievement, personal interest, and individual levels of motivation;
- To enable pupils to acquire self esteem, respect for themselves and others and develop a commitment to an active lifestyle;
- To enable the teaching of the theory elements of the course to arise from the practical activities.

### **Aims of the course**

- To develop and apply the pupil's knowledge, skills and understanding of physical education through selected practical activities;
- To develop the knowledge and understanding of the different factors that affect participation and performance and demonstrate their relationship;
- To encourage pupils to understand the roles of rules and conventions in selected activities;
- To promote the pupils' understanding of the health benefits and risks associated with taking part in physical activity;
- To develop the skills necessary to analyse and improve performance;
- To support the pupils' personal and social development through adopting different roles in selected activities when working with others.



### **Summary of Assessment**

#### **Unit 1: Introduction to Physical Education**

Written examination: 2 hours  
100 marks (50% of qualification)

Learners will be assessed through a range of short and extended questions. The questions will be based on audio-visual stimuli and other sources.

#### **Unit 2: The Active Participant in Physical Education**

Written examination: 2 hours  
100 marks (50% of qualification)

Learners will be assessed in three different activities in the role of performer in at least one individual sport, one team sport and one other. One activity will be a major activity which will have a personal fitness programme linked to the activity.



# Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig

## Constructing the Built Environment

### Nod

Mae'r diwydiant adeiladu yn cyflogi dros 3 miliwn o bobl yn y DU ac yn cynnig ystod amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth. Mae gyrfaoedd ar gael ym mhob rhan o'r broses adeiladu gan gynnwys syniadau a dyluniadau cychwynnol, adeiladu a'r cynllunio a chynnal strwythurau sy'n digwydd.

Mae'r cwrs galwedigaethol hwn wedi'i ddylunio i gefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r diwydiant adeiladu. Mae'n darparu dysgwyr â chyflwyniad eang i fasnach gwahanol sy'n rhan o'r sector a'r mathau o gyfleoedd gyrrfa sydd ar gael.

Mae'n arbennig o addas yn fel sail i astudiaeth bellach. Gallai'r astudiaeth bellach hwn ddarparu dysgwyr ag ymwybyddiaeth

o waith mathau gwahanol o swyddi yn y sector fel plymwyd, seiri a theilsio. O ganlyniad, efallai yr hoffent ddechrau ar brentisiaeth neu barhau â'u hastudiaethau i addysg uwch er mwyn mynd ymlaen i'r swyddi hymny. Gallai cyflawni'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus ddarparu'r dysgwyr â chyfleoedd i gael mynediad at ystod o gymwysterau gan gynnwys:

- Prentisiaethau mewn adeiladu
- Cymwysterau Lefel 2 mewn meysydd arbenigol fel plymio, gosod brics a gwaith saer
- Cymwysterau Lefel 3 mewn adeiladu, fel Diplomas mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Cydnabyddir y cwrs gan y BHDA (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu) sy'n datgan:

"Mae'n bleser i'r BHDA weithio gyda CBAC i ddatblygu'r Cymhwyster Adeiladu lefel 1/2 wedi'u seilio ar gynnwys a gymeradwyd gan y diwydiant fydd yn darparu'r cyfreithiol i ysbrydoli'r genhedaeth nesaf o bobl ifanc i ystyried Adeiladu fel gyrrfa"

### Manylion y Cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys 120 oriau dysgu dan arweiniad:

#### 1. Diogelwch ym maes adeiladu (30 awr)

Drwy'r uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd

eu hangen i allu cynllunio sut i leihau'r risg i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch eraill mewn cyd-destunau gwahanol.

#### 2. Sgiliau adeiladu ymarferol (60 awr)

Ffocws yr uned hon fydd datblygu 3 sgil adeiladu penodol er enghraift; gwaith saer, plymio a theilsio. Fe fydd dysgwyr hefyd yn dysgu i ddehongli'r wybodaeth dechnegol er mwyn cynllunio'r gwaith o adnewyddu adeilad, gan ystyried materion iechyd a diogelwch. Byddant yn defnyddio sgiliau a thechnegau priodol er mwyn gwneud y gwaith adnewyddu.

#### 3. Cynllunio projectau adeiladu (30 awr)

Bydd dysgwyr yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd wrth feithrin sgiliau ymarferol a gofynion iechyd a diogelwch prosesau adeiladu ac yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gynllunio prosiectau datblygu amgylchedd adeiledig syml.

### Asesu

Uned 1 - Asesir 'Diogelwch ym maes adeiladu' drwy arholiad ar-lein 60 munud. Caniateir i ddysgwyr ailsefyll unwaith. Bydd y radd uchaf yn cyfrannu at y radd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster.

Uned 2 – Asesir 'Sgiliau adeiladu ymarferol' yn fewnol cyn ei gymhedroli'n allanol gan CBAC.

Uned 3 - Asesir 'Cynllunio projectau adeiladu' hefyd yn fewnol cyn ei gymhedroli'n allanol gan CBAC.

Gwobrwyir y cymhwyster terfynol yn ôl un o'r graddau dilynol:  
Lwyddiant Lefel 1, Llywyddiant Lefel 2, Teilyngdod Lefel 2 neu Ragoriaeth Lefel 2.



# Adeiladu'r Amgylchedd Adeiledig

## Constructing the Built Environment

### Aims

The construction industry employs over 3 million people in the UK and offers a diverse range of employment opportunities. Careers are available in all phases of the construction process including initial ideas and designs, building and the ongoing planning and maintenance of structures.

This vocational course is designed to support learners to develop an awareness of the construction industry. It provides learners with a broad introduction to the different trades involved in the sector and the types of career opportunities available.

It is especially suitable as a foundation for further study. The successful completion of this qualification could provide the learner with opportunities to access a range of qualifications including:

- Apprenticeships in construction
- Level 2 qualifications in specialist areas such as plumbing, tiling and carpentry
- Level 3 qualifications in construction, such as Diplomas in Construction and the Built Environment

The course is recognised by the CITB (Construction industry Training Board) who say: "CITB are delighted to have been able to work with WJEC to develop the level 1 / 2 Construction Qualifications which are based on industry approved content and provide the opportunity to inspire the next generation of young people to consider Construction in its widest context as a Career of Choice."

### Course Details

The course is comprised of 120 guided learning hours within 3 units of study:

#### **1. Safety and security in construction (30 hours)**

Through this unit, learners will gain the knowledge and understanding to be able to plan how to minimise risk to their own and others health and safety in different contexts.

#### **2. Practical construction skills (60 hours)**

The focus of this unit will be on developing 3 specific skills such as carpentry, plumbing and tiling. Learners will also learn how to interpret technical information to plan the refurbishment of a building, taking account of health and safety issues. They will use appropriate skills and techniques to carry out the refurbishment.

#### **3. Planning construction projects (30 hours)**

Learners will use their learning from the development of practical skills and health and safety requirements of construction processes to plan straightforward built environment development projects.

### Assessment

Unit 1 - Safety and security in construction is assessed by a 60 minute online examination. Learners are allowed one re-sit opportunity. The highest grade will contribute towards the overall grade for the qualification.

One re-sit opportunity. The highest grade will contribute towards the overall grade for the qualification;

Unit 2 - Practical construction skills is internally assessed and externally moderated by the WJEC.

Unit 3 - Planning construction projects is also internally assessed and externally moderated by the WJEC.

The final qualification will be awarded according to one of the following grades:

Level 1 Pass, Level 2 Pass, Level 2 Merit, Level or Level 2 Distinction.



# Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd

## Philosophy, Ethics and Religion

### Mae hwn yn gwrs dwy flynedd.

Ym mlwyddyn 10 astudir yr uned 'Crefydd a Themau Athronyddol' ac ym mlwyddyn 11 bydd y disgylion yn astudio'r uned 'Crefydd a Themau Moesegol'. Mae TGAU CBAC mewn Astudiaethau Crefyddol yn defnyddio dull seiliedig ar faterion nodedig o astudio astudiaethau crefyddol, athronyddol a moesegol yn y byd modern. Mae'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddeall mwy am y byd, yr heriau crefyddol sy'n ei wynebu a'u lle yn y byd hwnnw. Bydd dilyn y cwrs TGAU hwn yn atgyfnerthu dealltwriaeth o grefyddau a'u heffeithiau ar gymdeithas. Bydd yn datblygu cymhwysedd dysgwyr mewn perthynas ag ystod eang o sgiliau ac ymagweddau ac yn galluogi pobl ifanc i fod yn grefyddol wybodus ac ystyriol, ac yn ddinas ydion sydd wedi'u hymgysylltu.



### Amcanion Cyffredinol

Gwelir TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol fel sylfaen ardderchog i unigolion sy'n ystyried gyrrfa mewn

**Newyddiaduraeth, Y Gyfraith, Addysg, Meddygaeth gan gynnwys Meysydd Gofal eraill yn ogystal â gwaith yn y Gwasanaeth Sifil.**

Mae'r cwrs yn darparu cyfle i fyfyrwyr:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o grefyddau a chredoau anghrefyddol, megis anffyddiaeth a dyneiddiaeth
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o gredoau crefyddol, dysgeidiaethau, arferion a ffynonellau doethineb ac awdurdod, yn cynnwys drwy ddarllen testunau crefyddol allweddol, testunau eraill, ac ysgrifurau'r crefyddau maent yn eu hastudio
- datblygu gallu'r dysgwyr i lunio dadleuon cytbwys, strwythuredig sydd wedi eu dadlau'n dda ac sy'n seiliedig ar wybodaeth dda, gan ddangos dealltwriaeth fanwl ac eang o'r pwnc
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â chwestiynau mewn perthynas â chred, gwerth, ystyr, pwrpas, gwirionedd, a'u dylanwad ar fywyd dynol
- herio dysgwyr i fyfyrlo ar eu gwerthoedd, credoau a'u hagweddau eu hunain a'u datblygu yn sgil yr hyn maent wedi ei ddysgu, gan gyfrannu at eu paratoad ar gyfer bywyd fel oedolion mewn cymdeithas amlblwyfol a chymuned fyd-eang

<b>Uned 1--Rhan A</b>	<b>Uned 2--Rhan A</b>
Credoau ac arferion Cristnogol ac Islamaidd	
<b>Rhan B –Cysyniadau Allweddol</b>	<b>Rhan B –Cysyniadau Allweddol</b>
<b>Bywyd a Marwolaeth</b>	<b>Daioni a Drygioni</b>
Bywyd ar ôl marwolaeth	Daioni/drygioni
Cyfrifoldeb amgylcheddol	Maddeuant
Ewthanasia	Ewyllys rydd
Esblygiad	Cyflawnder
Erthulu	Moesoldeb
Ansawdd bywyd	Heddychiaeth
Sancteiddrwydd bywyd	Cydwybod
Yr enaid	Dioddefaint
<b>Perthnasoedd</b>	
<b>Hawliau Dynol</b>	
Godineb	Sensoriaeth
Ysgariad	Gwahaniaethu
Cyd-fyw	Eithafiaeth
Ymrwymiad	Hawliau dynol
Atal cenhedu	Argyhoeddias personol
Cydraddoldeb rhwng y rhywiau	Rhagfarn
Cyfrifoldebau	Tlodi cymharol ac absoliwt
Rolau	Cyflawnder cymdeithasol

### Crynodeb o'r Asesu

Bydd disgylion yn sefyll DAU bapur 2awr, un ar ddiwedd blwyddyn 10 ar llall ar ddiwedd blwyddyn 11. Bydd y papurau arholiad yn cynnwys cwestiynau strwythuredig ac fe fydd cyfle i ymgeiswyr ysgrifennu'n estynedig.



# Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd

## Philosophy, Ethics and Religion

### This is a two year course

In year 10, students will study a unit on 'Religion and Philosophical Themes' and in year 11 they will follow a separate unit on 'Religion and Ethical Themes.' The WJEC GCSE Religious Studies takes a distinctive issues based approach to the study of religious, philosophical and ethical studies in the modern world. It provides opportunities for learners to understand more about the world, the religious challenges it faces and their place within it. Following this GCSE course will deepen understanding of religions and their effects on society. It will develop learners' competence in a wide range of skills and approaches and enable young people to become religiously informed and thoughtful, engaged citizens.

### General Aims

**A GCSE in Religious Studies is viewed as an excellent grounding for people who are considering a career in Journalism, Law, Education, Medicine and other professions as well as work within the Civil Service.**

The course provides an opportunity for students to:

- develop learners' knowledge and understanding of religions and non-religious beliefs, such as atheism and humanism
- develop learners' knowledge and understanding of religious beliefs, teachings, practices, and sources of wisdom and authority.
- develop learners' ability to construct well-argued, well-informed, balanced and structured written arguments, demonstrating their depth and breadth of understanding of the subject
- provide opportunities for learners to engage with questions of belief, value, meaning, purpose, truth, and their influence on human life
- challenge learners to reflect on and develop their own values, beliefs and attitudes in the light of what they have learnt and contribute to their preparation for adult life in a pluralistic society and global community



Care

Unit 1--Part A		Unit 2--Part A	
Christian and Islamic beliefs and practices			
Part B –Key Concepts		Part B –Key Concepts	
Life and death	Good and Evil	Relationships	Human Rights
Afterlife	Good/Evil	Adultery	Censorship
Environmental Responsibility	Forgiveness	Divorce	Discrimination
Euthanasia	Free Will	Cohabitation	Extremism
Evolution	Justice	Commitment	Human Rights
Abortion	Morality	Contraception	Prejudice
Quality of Life	Pacifism	Gender Equality	Personal conviction
Sanctity of Life	Conscience	Responsibilities	Relative and Absolute poverty
Soul	Suffering	Roles	Social justice

### Summary of Assessment

Pupils will sit two papers, one at the end of Year 10 and the other at the end of Year 11, each of which will be 2 hours. The examination papers will consist of structured questions and there will be an opportunity for candidates to write at length.



# Arlwyo a Lletygarwch

## Hospitality and Catering

### Amcanion:

Dyma'r dewis i chi os oes gennych chi ddiddordeb mewn paratoi, cyflwyno a gweini bwyd i safon uchel. Yn ogystal ag ymestyn eich gallu mewn Technoleg Bwyd fe ddysgwch am bob agwedd o'r Diwydiant Arlwyo a Lletygarwch fel diet, maetheg, hylendid a swyddi o fewn y diwydiant. Mae'r wobr CBAC Lefel 1/2 mewn Lletygarwch ac Arlwyo wedi ei gynllunio i gefnogi dysgwyr mewn ysgolion a cholegau sydd eisiau dysgu am y sector galwedigaethol a'r posibilrwydd y gall ei gynnig iddynt ar gyfer eu gyrfaoedd neu astudiaeth bellach. Mae'n fwyaf addas fel sylfaen ar gyfer astudiaeth bellach. Byddai hyn yn rhoi i ddysgwyr y cyfle i ddatblygu ystod o sgiliau arbenigol a chyffredinol a fyddai'n cefnogi eu dilyniant i gyflogaeth. Gall y cwrs gynnig cyflogaeth mewn meysydd lletygarwch ac arlwyo. Mae hyn yn amrywio o staff gweini, derbynyddion a chynorthwywyr arlwyo i gogyddion, rheolwyr gwestai a bar a thechnolegwyr bwyd sy'n gweithio i gadwyni archfarchnadoedd. Mae pob un o'r rolau hyn yn gofyn am addysg bellach a hyfforddiant naill ai drwy brentisiaethau neu addysg bellach ac uwch.

### Manylion y Cwrs

Rhennir cynwys y cwrs yn ddau faes gorfodol o astudiaeth:

#### Uned 1 - Y Diwydiant Lletygarwch ac Arlwyo – Bwyd a Diod

- Rolau swydd, cyfleoedd gwaith a hyfforddiant perthnasol
- Iechyd, diogelwch a hylendid
- Cyfathrebu a chadw cofnod
- Ystyriaethau amgylcheddol

#### Uned 2 - Y diwydiant Lletygarwch ac Arlwyo ar waith

Sgiliau arlwyo a choginio ymarferol sy'n gysylltiedig â pharatoi a gweini bwyd

### Asesu

i. Papur theori ar lein 90 munud o hyd, i'w sefyll ar ddiwedd y cwrs (40% o'r marciau). Fe fydd y papur yn cynnwys yr holl wybodaeth o Uned 1 a 2.

ii. Asesiad o waith ymarferol o dan reolaeth (60% o'r marciau)



### Aims:

If you have an interest in food preparation and presentation this is the course for you. As well as extending your practical abilities from your Food Technology lessons, you will learn about all aspects of the Hospitality and Catering Industry such as diet, nutrition, hygiene and work roles within the industry. The WJEC Level 1/2 Award in Hospitality and Catering has been designed to support learners in schools and colleges who want to learn about this vocational sector and the potential it can offer them for their careers or further study. It is most suitable as a foundation for further study. This further study would provide learners with the opportunity to develop a range of specialist and general skills that would support their progression to employment. Employment in hospitality and catering can range from waiting staff, receptionists and catering assistants to chefs, hotel and bar managers and food technologists working for supermarket chains. All of these roles require further education and training either through apprenticeships or further and higher education.

### Course Details

The course specification is divided into 2 areas of study:

#### Unit 1 - The Hospitality and Catering Industry – food and drink

- Job descriptions, work opportunities and training
- Health, hygiene and safety
- Communication and record keeping
- Environmental considerations

#### Unit 2 - Hospitality and Catering in action:

Catering skills associated with the preparation, cooking and serving food.

### Assessment

i. An end of course on line examination theory paper, 90 minutes in length (40% of course marks). All candidates are entered for the examination. This will use all of the knowledge gained in Unit 1 and 2.

ii. Assessment of practical work - Candidates will be expected to complete a controlled practical cooking task. This will be completed in school under set examination conditions (60%)



# Busnes

## Business

Mae'r fanyleb TGAU hon yn cyflwyno dysgwyr i fyd busnes, gan eu grymuso I ddatblygu fel unigolion mentrus sydd â meddyliau masnachol. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau, fydd yn eu galluogi i ddefnyddio gwybodaeth fusnes yn feirniadol, i ddatblygu dadleuon, i wneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau, a'u paratoi ar gyfer astudiaeth bellach a llwybrau gyrfaoedd.

Mae cynnwys y pwnc yn galluogi dysgwyr i gymhwysyo eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i wahanol gyd-destunau busnes, yn cynnwys amrywiaeth o fusnesau o fentrau bach I gwmniau rhyngwladol mawr a busnesau sy'n gweithredu mewn cyddestunau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno mewn chwe maes testun clir a phenodol:



### Arholiadau

Bydd cynnwys pwnc TGAU Busnes yn cael ei asesu mewn dau bapur arholiad:

#### **Uned 1: Byd Busnes - 62.5% o'r cymhwyster**

##### **Arholiadau ysgrifenedig 2 awr**

Cymysgedd o atebion byr a chwestiynau strwythuredig yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb

##### **Cyfanswm marciau: 100**

#### **Uned 2: Canfyddiadau Busnes - 37.5% o'r cymhwyster**

##### **Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud**

Cwestiynau ymateb i ddata yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb

##### **Cyfanswm marciau: 60**

Mae'r ddwy uned yn asesu cynnwys o'r chwe maes testun, felly bydd yn ofynnol I ddysgwyr ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o bob elfen o gynnwys y pwnc ym mhob asesiad.

This GCSE specification introduces learners to the business world, empowering them to develop as commercially minded and enterprising individuals. Learners will have the opportunity to develop a wide range of skills, enabling them to use business information critically, to develop arguments, to make justified decisions and to prepare them for further study and career pathways.

The subject content enables learners to apply their knowledge and understanding to different business contexts, including businesses ranging from small enterprises to large multinationals and businesses operating in local, national and global contexts. Learners are required to develop an understanding of how these contexts impact on business behaviour.

The content is presented in six clear and distinct topic areas:

- Business activity
- Influences on business
- Business operations
- Finance
- Marketing
- Human resources

### Exams

The subject content for GCSE Business will be assessed across two examination papers.

#### **Unit 1: Business World - 62.5% of qualification**

##### **Written examination: 2 hours**

A mix of short answer and structured questions based on stimulus material covering all of the specification content

##### **Total Marks: 100**

#### **Unit 2: Business Perceptions - 37.5% of qualification**

##### **Written examination: 1 hour 30 minutes**

Data response questions covering all of the specification content

##### **Total marks: 60**

Both units assess content from all six topic areas, so learners will be required to draw together knowledge, skills and understanding from across the subject content in each assessment.



# Celf a Dylunio

## Art and Design

### Amcanion cyffredinol

Mae'r cwrs TGAU Celf a Dylunio yn cynnwys dewis eang o sgiliau a phrofiadau a fydd yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu syniadau gwreiddiol a'u troi'n gynnyrch gorffenedig, gan ddilyn ffordd o weithio penodedig. Yn ystod y cwrs fe fydd yn rhaid i bob ymgeisydd blethu astudiaethau o waith Arlunwyr, Crefftawr a Dylunwyr i'w gwaith. Fe fydd cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau yn y meysydd canlynol -

- Lluniadu a Pheintio
- Argraffu
- Tecstilau
- Dylunio 3D
- Ffotograffiaeth
- Astuaethau Beirniadol a Chyd-destunol

Fe fydd y cwrs TGAU Celf a Dylunio yn cynnwys dwy ran:

- **Asesiad 1:** Portffolio yr Ymgeisydd (60%)
- **Asesiad 2:** Tasg a Osodir yn Allanol (40%)

Fe fydd yr uned portffolio yn cael ei osod yn fewnol gan yr adran ac yn cael ei ddatblygu o fan cychwyn personol. Fe fydd y portffolio yn hybu cymhelliant diddordeb personol pob disgybl ac ar yr un pryd yn cysylltu mewn ffordd adidas gyda phrofiadau addysgiadol gwerthfawr. Mae'r cwrs yn cynnwys pedwar prif faes. Mae'r meysydd yma yn cael eu cynnwys yn y pedwar nod asesu:

- Dealltwriaeth cyd-destunol
- Gwneud creadigol
- Cofnodi myfyriol
- Cyflwyniad personol

Gelwir y Papur Cwestiwn yn Brawf Rheoledig a mae'n cynnwys elfen o'r cwrs a osodir yn allanol ac mae'n nodweddiadol i gynnwys spardunau gweledol ac ysgrifenedig.



### Crynodeb o'r asesiad

#### Uned 1 (Portffolio yr Ymgeisydd) (60%)

Gosodir yn fewnol ac fe ddatblygir o fan cychwyn personol neu un a osodir yn fewnol.

Ymgeisydd yn dethol a chyflwyno detholiad o waith o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cwrs.

Mae angen tystiolaeth o sut mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â phob un o'r nodau asesu.

#### Uned 2 (Tasg neu man cychwyn a osodir yn allanol) (40%)

Ymchwil ac astudiaethau paratoadol.

Angen cynnal cyfnod parhaol o astudio sydd ddim yn fwy na 10 awr.

Cyflwynir i'r ymgeisydd ddim yn gynarach na dechrau Ionawr yn ystod blwyddyn yr arholiad.

Mae angen tystiolaeth o sut mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â phob un o'r nodau asesu.



### **General Aims**

The GCSE Art and Design course will cover a wide range of skills and experiences that will enable pupils to develop original ideas through to finished products, following an organised methodology and approach. The course will develop the individual's judgement and ability. Within the course, pupils will be encouraged to incorporate studies of work by other Artists, Craft workers and Designers. There will be an opportunity for pupils to develop their skills within the following fields –

- Drawing and Painting
- Printmaking
- 3D Design
- Critical & Contextual Studies


The GCSE Art and Design will consist of two parts:

- **Assessment 1:** Candidate Portfolio (60%)
- **Assessment 2:** Externally Set Task (40%)

The portfolio unit will be internally set by the department and developed from personal starting points. The portfolio will motivate the personal interest of each pupil and at the same time appropriately relate to worthwhile educational experiences. The course is designed to encompass four principal areas. These areas are incorporated into the four assessment objective headings:

- Contextual understanding
- Creative making
- Reflective recording
- Personal presentation

The Question Paper is called the Controlled Assignment and represents the externally set element of the course, and is characterised by visual and written triggers.



### **Summary of Assessment**

#### **Unit 1 (Candidate Portfolio) (60%)**

Internally set and developed from personal and/or given starting points. Selected and presented by the candidate from work undertaken within the course. Requires evidence of how the candidate has met each of the assessment objectives.

#### **Unit 2 (Externally set task or starting point) (40%)**

Research and preparatory studies.

Requires a sustained period of focused study of no longer than 10 hours Presented to the candidate no earlier than the start of January in the year of the examination. Requires evidence of how the candidate has met each of the assessment objectives.



# Celf a Dylunio - Tecstilau

## Art and Design - Textiles

### Amcanion Cyffredinol

Mae'r cwrs TGAU Celf a Dylunio – Dylunio Tecstilau yn cynnwys dewis eang o sgiliau a phrofiadau a fydd yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu syniadau gwreiddiol a'u troi'n gynnrych gorffenedig, gan ddilyn ffordd o weithio penodedig. Yn ystod y cwrs fe fydd yn rhaid i bob ymgeisydd blethu astudiaethau o waith Arlunwyr, Crefftawyr a Dylunwyr i'w gwaith. Fe fydd cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau yn y meysydd canlynol -

- Lluniadu a Pheintio ar ddefnydd
- Argraffu
- Technegau megis 'batic'
- Gwnio
- Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol

Fe fydd y cwrs TGAU Celf a Dylunio – Dylunio Tecstilau yn cynnwys DWY ran:

- **Asesiad 1:** Portffolio yr Ymgeisydd (60%)
- **Asesiad 2:** Tasg a Osodir yn Allanol (40%)

Fe fydd yr uned portffolio yn cael ei osod yn fewnol gan yr adran ac yn cael ei ddatblygu o fan cychwyn personol. Fe fydd y portffolio yn hybu cymhelliant diddordeb personol pob disgybl ac, ar yr un pryd, yn cysylltu mewn ffordd addas gyda phrofiadau addysgiadol gwerthfawr. Mae'r cwrs yn cynnwys pedwar prif faes. Mae'r meysydd hyn yn cael eu cynnwys yn y pedwar nod asesu:

- Dealltwriaeth cyd-destunol
- Gwneud creadigol
- Cofnodi myfyriol
- Cyflwyniad personol

Gelwir y Papur Cwestiwn yn Brawf Rheoledig ac mae'n cynnwys elfen o'r cwrs a osodir yn allanol, ac mae'n nodweddiadol i gynnwys sbardunau gweledol ac ysgrifenedig.



### Crynodeb o'r Asesiad

#### Uned 1 (Portffolio yr Ymgeisydd) (60%)

Gosodir yn fewnol ac fe ddatblygir o fan cychwyn personol, neu un a osodir yn fewnol.

Ymgeisydd yn dethol a chyflwyno detholiad o waith o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cwrs.

Mae angen tystiolaeth o sut mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â phob un o'r nodau asesu.

#### Uned 2 (Tasg neu fan cychwyn a osodir yn allanol) (40%)

Ymchwil ac astudiaethau paratoadol.

Angen cynnal cyfnod parhaol o astudio sydd ddim yn fwy na 10 awr.

Cyflwynir i'r ymgeisydd, ddim yn gynharach na dechrau Ionawr yn ystod blwyddyn yr arholiad.

Mae angen tystiolaeth o sut mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â phob un o'r nodau asesu.



# Celf a Dylunio - Tecstilau

## Art and Design - Textiles

### General Aims

Cemeg 2 Bioleg 2 Ffiseg 2 <i>80 marc yr un 1awr 45 mun y papur</i>	Diwedd Blwyddyn 11	

Mae pob arholiad allanol ar gael mewn dwy haen: Haen Sylfaenol (sy'n cwmpasu graddau "C" i "G") a Haen Uwch (sy'n cwmpasu graddau "A\*" i "E"). Mae'r asesiadau o dan reolaeth (ymarferol) yr un haen i bawb. Mae marc da gyda'r asesiadau ymarferol yn caniatâu i ddisgyblion sy'n sefyll Haen Sylfaenol ennill gradd "B" ar yr amod bod eu perfformiadau yn y papur ysgrifenedig yn dda.



### Gwyddoniaeth (Dwyradd) TGAU

Mae'r tair gwyddor (Bioleg, Cemeg, Ffiseg) yn cael eu hasesu mewn gwahanol arholiadau, ond mae marciau bob asesiad yn cael eu cyfuno i roi dwy radd derfynol ar gyfer y pwnc. Mae yna lai o gynnwys i'r cwrs o'i gymharu â'r gwyddorau ar wahân. Serch hyn mae modd astudio'r pwnc at Safon Uwch os yw'r disgylb yn sicrhau gradd 'B' neu'n well yn y wyddor hynny.


Arholiad allanol ysgrifenedig 90%	Pryd?	Asesiad o dan reolaeth (ymarferol) 10%
Cemeg 1 Bioleg 1 Ffiseg 1 <i>60 marc yr un 1awr 15 mun y papur</i>	Diwedd Blwyddyn 10	Bydd angen cwblhau dau o'r asesiadau isod: un asesiad Cemeg (30 marc)
Cemeg 2 Bioleg 2 Ffiseg 2 <i>60 marc yr un 1awr 15 mun y papur</i>	Diwedd Blwyddyn 11	un asesiad Bioleg (30 marc) un asesiad Ffiseg (30 marc)

### Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol)

Mae'r tair gwyddor (Bioleg, Cemeg a Ffiseg) yn cael eu dysgu ar y cyd mewn dwy uned wahanol. Golygir hyn bod Uned 1 a 2 yn cynnwys gwaith Cemeg, Bioleg a Ffiseg. Mae'r cwrs yma yn cynnig mwy o gyfleoedd i wneud gwaith ymarferol, gyda 30% o'r marc terfynol yn cael ei roi am asesiadau ymarferol. Cyfunir marc y pedwar uned er mwyn rhoi gradd derfynol.



Arholiad	Pryd?
Uned 1 – Gwyddoniaeth yn y byd modern 75 marc 1 awr 30 munud.	Arholiad allanol ar ddiwedd Blwyddyn 10
Uned 2 – Gwyddoniaeth i gefnogi ein ffordd o fyw 75 marc 1 awr 30 munud.	Arholiad allanol ar ddiwedd Blwyddyn 11
Uned 3 – Asesiad seiliedig ar dasg 60 marc	Arholiad ymarferol Tachwedd - Rhagfyr Blwyddyn 11
Uned 4 – Asesiad ymarferol 30 marc	Arholiad ymarferol Ionawr - Chwefror Blwyddyn 11



# Gwyddoniaeth

## Science

Pupils are placed in Sets by the Department, based on performance and ability. Three different courses are offered to GCSE pupils, and each set will follow a Science course that is most well suited to the class.

Science course	Number of GCSE's gained at the end of Year 11
Separate Sciences (Biology, Chemistry and Physics)	3
Science Double Award	2
Applied Science (Single award)	1


To study at Advanced Level pupils must have a grade 'B' or better in that particular Science.

### Separate Sciences ('Triple Science') GCSE

The three sciences (Biology, Chemistry and Physics) are assessed independently of each other and pupils will be awarded a separate grade for each one.

Written external examination 90%	When?	Controlled assessment (practical) 10%
Chemistry 1 Biology 1 Physics1 80 marks per paper 1hr 45 min per paper.	End of Year 10	30 marks each:  one Chemistry assessment  one Biology assessment  one Physics assessment
Chemistry 2 Biology 2 Physics2 80 marks per paper 1hr 45 min per paper.	End of Year 11	

Every external, written examination is available in two Tiers: Foundation Tier (which allows grades C to G) and Upper Tier (which allows grades A\* to E). The Controlled Assessments (practical) are all on the same tier. A good mark in the practical tasks can allow a Foundation Tier candidate to gain a B-grade overall (as long as their written paper marks are good).



### Science Double Award

The three sciences (Biology, Chemistry and Physics) are assessed in separate examinations, but marks are combined to give an overall double grade for Science. This course contains less content than the separate sciences course, but pupils are still able to study science at Advanced Level if they have a grade 'B' in that particular science.

Written external examination 90%	When?	Controlled assessment (practical) 10%
Chemistry 1 Biology 1 Physics1 60 marks per paper 1hr 15 min per paper.	End of Year 10	Pupils will complete two assessments from the following:  one Chemistry assessment (30 marks)
Chemistry 2 Biology 2 Physics2 60 marks per paper 1hr 15 min per paper.	End of Year 11	one Biology assessment (30 marks)  one Physics assessment (30 marks)

### Applied Science (Single award)

The three sciences (Biology, Chemistry and Physics) are all integrated in each unit. This course offers more opportunities to conduct practical work, with 30% of the marks awarded for practical tasks. Marks from the following 4 Units are all combined to give an overall grade for Science.



Examination	When?
Unit 1 – Science in the modern world 75 marks 1hr 30 min	External examination at the end of Yr 10
Unit 2 – Science to support our lifestyles 75 marks 1hr 30 min.	External examination at the end of Yr 11
Unit 3 – Task based assessment 60 marks	Practical assessment November-December of Yr 11
Unit 4 – Practical assessment 60 marks	Practical assessment January-February of Yr 11

# Hanes

## History

"Not to know what happened before one was born is always to remain a child." – Cicero

### Amcanion Cyffredinol:

Ydych chi yn deall y byd yr ydym yn byw yn ddiwrnod? Ydych chi eisiau gwella eich gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sydd ar y newyddion? Dywed nifer ein bod yn dysgu gwersi o gamgymeriadau'r gorffennol ac eu bod yn llunio'r presennol. Wrth astudio'r cwrs modern a dynamig yma, byddwch yn datblygu ac yn ehangu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r byd ddoe, heddiw a'r dyfodol.



### Bwriad y cwrs yw:

- Rhoi cyfle i astudio amrediad o ddigwyddiadau o hanes Cymru, Prydain a'r Byd.
- Ychwanegu at y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gafwyd ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9.
- Rhoi cyfle i ddefnyddio sawl ffynhonnell gwybodaeth megis TGCh, ffynonellau ysgrifenedig a gweledol, artefactau, cerddoriaeth, fideo ac adeiladau a safleoedd.
- Rhoi anogaeth a chyfle i ddefnyddio a gwella eich sgiliau ymchwil wrth astudio Hanes.
- Eich paratoi ar gyfer her y dyfodol. Mae Hanes yn eich paratoi ar gyfer nifer o gyrsiau Lefel-A ac Addysg Uwch mewn coleg neu Brifysgol. Mae sawl gyrfa yn edrych yn ffafrion ar Hanes, fel addysg, y gyfraith, gwleidyddiaeth a'r gwasanaeth sifil, yr heddlu, newyddiaduriaeth, gwaith ymchwil, a llawer mwy. Mae 80% o reolwyr ym Mhrydain wedi astudio Hanes!

### Manylion y Cwrs:

Mae'r Adran Hanes yn paratoi disgylion blynnyddoedd 10 ac 11 ar gyfer Maes Llafur Hanes CBAC (Cymru). Ceir yn ddiwrnod gymysgedd o astudiaethau yn amrywio o draethodau i ymarfer a dehongli tystiolaeth.

### Bydd disgylion yn astudio 4 uned

#### Uned 1 (Astudiaeth Fanwl) (25%)

DIRWASGIAD, RHYFEL AC ADFERIAD, 1930-1951

- Bywyd yn ystod y Dirwasgiad
- Prydain a Bygythiad yr Almaen
- Y Rhyfel ar y Ffryst Cartref
- Cymru a Lloegr wedi'r Ail Ryfel Byd

#### Uned 2 (Astudiaeth Fanwl) (25%)

UDA: GWLAD GWAHANIAETHAU, 1910-29

- Problemau a sialensau
- Newid i'r economi
- Diwylliant a chymdeithas America
- Rôl menywod

#### Uned 3 (Astudiaeth Thematig) (30%)

NEWIDIADAU YM MAES TROSEDD A CHOSB, tua 1000 hyd heddiw

- Achosion a natur troseddau
- Gorfodi cyfraith a threfn
- Dulliau o ymladd trosedd

#### Uned 4 (Gwaith Cwrs) (20%)

ASESIAD DAN REOLAETH

Dau draethawd yn seiliedig ar ffynonellau hanesyddol.

### Dulliau Asesu

Mae pawb yn sefyll yr un arholiad sydd yn rhoi cyfle i bawb gyrraedd A\*.



# Hanes History

"Not to know what happened before one was born is always to remain a child." – Cicero

## Aims:

Do you understand the world that we live in? Do you want to improve your knowledge and understanding of the topics that are covered on the news? It is said that we learn from past mistakes, and that they form the present world. By studying this modern and dynamic course, you will develop and enhance your knowledge and understanding of the past, present and future.

## Course purpose:

- Opportunity to study a range of events from Welsh, British and World history.
- To build on the knowledge, skills and understanding acquired in Years 7,8 and 9.
- Opportunity to use a range of sources of information, such as ITC, written and visual sources, artifacts, music, videos and buildings and sites.
- Encourage you to adopt and improve your research and enquiry skills.
- To prepare you for future challenges. History will prepare you for many A-Level and Higher Education courses at colleges and universities. History develops a wide range of skills that can be used in most careers, and many careers regard History as an advantage – such as education, law, politics and the civil service, police, journalism, research and many more. 80% of people in managerial positions in Britain have studied History!

## Course Details:

The History Department prepare pupils years 10 and 11 for WJEC GCSE History (Wales).

## Pupils will study 4 units:

### Unit 1 (In-Depth Study)

DEPRESSION WAR AND RECOVERY, 1930-1951 (25%)

- Life in Depression
- Britain and the Threat of Germany
- War on the Home Front
- Post-War Wales and England



### Unit 2 (In-Depth Study) (25%)

USA: COUNTRY OF DISCRIMINATION 1910-1929

- Problems and challenges
- Economical change
- American culture and society
- Role of Women

### Unit 3 (Thematic Study) (30%)

CHANGES IN CRIME AND PUNISHMENT, 1000 to today.

- Matter and nature of crimes
- Enforcing law and order
- Methods of fighting crime

### Unit 4 (Coursework) (20%)

CONTROLLED ASSESSMENT

Two essays based on historical sources.

## Assessment

Every pupil will sit the same exams, this gives an opportunity for everyone to gain A\*.



# Gofal a lechyd Cymdeithasol

## Health and Social Care

### NODAU:

Mae dilyn cwrs mewn T.G.A.U Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn arwain at: annog dysgwyr i gael eu hysbrydoli, eu symbolu a'u newid trwy ddilyn cwrs astudio eang, cydlynus, sy'n bodloni ac sy'n werth chweil a chael golwg ar sectorau cysylltiedig.

- paratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfleoedd dysgu pellach a dewisiadau gyrfa.
- gymryd rhan yn weithredol ym mhrosesau iechyd a gofal cymdeithasol, i ddatblygu dysgwyr effeithiol ac
- annibynnol.
- deall agweddu ar ddatblygiad personol, a'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a blynnyddoedd cynnar, trwy archwilio a gwerthuso amrywiaeth o wasanaethau a sefydliadau .
- datblygu dull beimiadol a dadansoddol tuag at ddatrys problemau yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a blynnyddoedd cynnar.
- archwilio materion sy'n effeithio ar natur ac ansawdd bywyd dynol, gan gynnwys gwerthfawrogiad o amrywiaeth a materion diwylliannol.
- ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r dylanwadau ar iechyd a lles yr unigolyn.
- deall pwysigrwydd symboliad a chefnogaeth wrth wella iechyd.

### Uned 1:

Asesiad dan reolaeth: 25 awr

60% o'r cymhwyster

120 marc

Bydd yr uned hon yn galluogi ymgeiswyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'r prif ddarpariaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaeth plant sydd ar gael i fodloni anghenion unigolion. Bydd ymgeiswyr yn dysgu am:

- anghenion gofal unigolion.
- mathau o wasanaethau gofal.
- y ffyrdd o gael gwasanaethau gofal a'r rhwystrau rhag mynediad.



- prif rolau gwaith a sgiliau pobl sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol gwasanaethau plant.
- egwyddorion gofal.

### Tasg 1: Darparu gwasanaethau iechyd.

Y dasg yma yn cyfrannu 20% o'r radd. Bydd angen archwilio anghenion iechyd a gofal cymdeithasol unigolyn yn ei ardal leol ac asesu'r ddarpariaeth sydd ar gael.

### Tasg 2: Hybu lechyd a Lle

Y dasg yma yn cyfrannu 40% o'r radd. Bydd angen archwilio'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn ei ardal leol ar gyfer grŵp cleientiaid ac asesu sut caiff anghenion y grŵp cleientiaid eu bodloni.

### Uned 2:

Papur Ysgrifenedig: 1 awr, 30 munud  
40% o'r cymhwyster  
80 marc

### Twf a Datblygiad Dynol

I ddarparu gofal effeithiol, mae angen i weithwyr yn y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a phlant wybod am y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn tyfu ac yn datblygu yn ystod eu bywyd. Bydd yr uned hon yn caniatáu i ymgeiswyr ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o broses twf a datblygiad dynol a'r gwahanol ffactorau sy'n gallu effeithio ar unigolion. Bydd ymgeiswyr yn dysgu am:

- dwf a datblygiad dynol.
- y ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad.
- datblygiad hunangysyniad.
- newidiadau bywyd a ffynonellau cefnogaeth.



# Gofal a lechyd Cymdeithasol

## Health and Social Care

### Aims:

GCSE Health and Social Care enables learners to:

- actively engage in the processes of health and social care, to develop as effective and independent learners
- understand aspects of personal development, and the health, social care and early years sectors, through investigation and evaluation of a range of services and organisations
- develop a critical and analytical approach to problem-solving within the health, social care and early years sectors
- examine issues which affect the nature and quality of human life, including an appreciation of diversity and cultural issues.
- develop their awareness of the influences on an individual's health and wellbeing
- understand the importance of motivation and support when improving health.

### Unit 1

#### Promoting and maintaining health and well-being

Non-exam assessment: approximately 25 hours

60% of qualification

120 marks

This unit will enable candidates to gain knowledge and understanding of the main health, social care and children's service provision available to meet individuals' needs. Candidates will learn about:

- care needs of individuals;
- types of care services;
- the ways of obtaining care services and the barriers to access;
- the main work roles and skills of people who provide health, social care and children's services;
- the principles of care.



### Task 1: Service provision

20% of marks within this unit are allocated to a service provision investigation which will assess the learner's knowledge,

understanding and skills in relation to Health and social care, and childcare service provision locally and nationally.

### Task 2: Health Promotion

40% of the marks within this unit are allocated to a task which assesses the learner's knowledge, understanding and skills in relation to promoting and maintaining health and well being

### Unit 2

#### Human growth, development and well-being

Written examination: 1 hour, 30 minutes

40% of qualification

80 marks

### Areas of content

- Human development across the life cycle
- Physical, social, emotional and intellectual health
- The importance of active participation on development and well-being
- Early intervention and prevention to promote and support growth, development andwell-being for a range of conditions and circumstances

### Overview of unit

In this unit, learners will gain knowledge and understanding of: human development across the life cycle and the ways in which this may be affected; how individuals can take control of their care and health and well-being; and how early intervention and prevention can support growth and development of individuals.



# Gwaith Pren (Lefel 1 | 2)

## Award in Woodworking

Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol  
Lefel 1 / 2 Lefel 2 mewn Gwaith Pren

Skillstart Lefel 1 / 2 mewn Gwaith Pren  
- EAL (Excellence, Achievement and Learning)

"Mae'r cwrs hyfforddiant Skillstart  
mewn Gwaith Pren yn cynnig cyfle i  
gael addysg mewn ffordd ymarferol..."

### Nod

Mae'r diwydiant adeiladu yn cyflogi dros 3 miliwn o bobl yn y DU ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth. Mae gyrfaoedd ar gael ym mhob maes o'r broses adeiladu, gan gynnwys syniadau a dyluniadau cychwynnol, adeiladu, a chynllunio a chynnal parhaus yr adeiladau hynny.

Mae'r cwrs galwedigaethol hwn wedi'i ddylunio i ddatblygu ymwybyddiaeth y dysgwyr o'r diwydiant adeiladu. Mae'n gyflwyniad eang i'r gwahanol masnachau sy'n rhan o'r sector, a'r mathau o yrfaedd sydd ar gael.

### Dyfodol posib?

Byddai cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn arwain at well ymwybyddiaeth o'r swyddi sydd ar gael yn y byd adeiladu, a hefyd yn gallu arwain at gyrsiau lefel uwch eraill e.e. Diploma Lefel 3 EAL mewn Peirianneg a Thechnoleg, prentisiaethau a swyddi. Gweler isod enghraifft o'r cyfleoedd/cymhwysterau eraill byddai'r dysgwr yn gallu cael mynediad iddynt, wrth gwblhau'r cwrs Cymhwyster mewn Gwaith Pren:

- Prentisiaethau mewn adeiladu
- Cymwysterau Lefel 2 mewn meysydd arbenigol fel plymio, gosod brics a gwaith saer
- Cymwysterau Lefel 3 mewn adeiladu, fel Diploma mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

### Manylion Y Cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys 6 uned astudio:

#### 1. Pwysigrwydd Iechyd a Diogelwch yn y diwydiant

Trwy'r uned hon bydd dysgwyr yn meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i allu cynllunio sut i leihau'r risg i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch eraill, mewn sefyllfaoedd gwahanol.



#### 2. Gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol

Ffocws yr uned hon fydd canolbwytio ar ddatblygu sgiliau gwaith coed penodol fel gwaith saer. Fe fyddant hefyd yn dysgu sut i ddehongli gwybodaeth dechnegol i greu tasgau a ddyluniwyd yn benodol, gan ystyried materion iechyd a diogelwch hefyd. Byddant yn defnyddio sgiliau a thechnegau priodol i gyflawni'r tasgau ymarferol hyn.

#### 3. Defnyddio a chyflwyno gwybodaeth dechnegol

Bydd dysgwyr yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd tra'n gwneud gwaith ymarferol (a'r gofynion iechyd a diogelwch perthnasol) i gynllunio prosiectau ymarferol.

#### 4. Uned Ymarferol - Defnyddio pren i gynhyrchu cydrannau

Bydd disgyblion yn dysgu sut i ddefnyddio offer marcio allan ac offer gwaith coed, i gynhyrchu cydrannau i oddefiadau cywir.

#### 5. Uned Ymarferol - Cydosod strwythurau Gwaith Pren

Bydd disgyblion yn dysgu sgiliau sy'n angenrheidiol i gynhyrchu strwythurau syml a chymhleth, gan ddefnyddio amrywiaeth o uniadau pren a dyfeisiau, offer a thechnegau cau mecanyseddol. Byddant yn gallu gwirio'r gwaith yn weledol a swyddogaethol, i gadarnhau bod y gwrthrych gorffenidig yn cwrdd â'r meinu prawf llwyddiant.



#### 6. Cynhyrchu lluniadau peirianneg gan ddefnyddio system CAD

Bydd dysgwyr yn dysgu sut i ddefnyddio systemau cyfrifiadurol CAD yn gywir, i greu lluniadau peirianneg i safonau cenedlaethol a rhwngwladol.

### Asesu

Addysgir ac asesir y cwrs dros ddwy flynedd y cyfnod TGAU. Nid oes arholiad allanol, ond mae'n rhaid cynhyrchu portffolio tystiolaeth trylwyr a manwl. Bydd angen i'r portffolio ddangos y sgiliau maent wedi'u dysgu, ac arddangos y gwaith ymarferol maent wedi'i greu.



### Cymhwyster

Cymhwyster Lefel 2 sy'n cyfateb i 2 TGAU gradd A i C.

Nid oes arholiad.



# Gwaith Pren (Lefel 1 | 2)

## Award in Woodworking

National Vocational Qualification Level 1 / 2 in Woodworking  
Skillstart Level 1 / 2 EAL (Excellence, Achievement and Learning) Award in Woodworking

"The Skillstart engineering training in woodwork course offers an opportunity for a practical, hands-on approach to education."

### Aims

The construction industry employs over 3 million people in the UK and offers a diverse range of employment opportunities. Careers are available in all phases of the construction process including initial ideas and designs, building and the ongoing planning and maintenance of structures.

This vocational course is designed to develop an awareness of the construction industry. It's a broad introduction to the different trades involved in the sector, and the types of career opportunities available.

### What could it lead to?

Successful completion of this course can lead to a better awareness of the employment possibilities in the construction industry, and could also lead to other higher level courses, such as the EAL Level 3 Diploma in Engineering and Technology, apprenticeships and employment. The successful completion of this qualification could provide the learner with opportunities to access a range of opportunities/qualifications including:

- Apprenticeships in construction
- Level 2 qualifications in specialist areas such as plumbing, tiling and carpentry
- Level 3 qualifications in construction, such as Diplomas in Construction and the Built Environment

### Course Details

The course is comprised of 6 units of study:

#### **1. The importance of Health and Safety in the industry**

Through this unit, learners will gain the knowledge and understanding to be able to plan how to minimise risk to their own, and others, health and safety in different contexts.



#### **2. Working efficiently and effectively**

The focus of this unit will be on developing specific woodworking skills such as carpentry. Learners will also learn how to interpret technical information to create specifically designed tasks, taking health and safety issues into account. They will use appropriate skills and techniques to carry out these tailored practical tasks.

#### **3. Using and communicating technical information**

Learners will use their learning from the development of practical skills and the health and safety requirements of construction processes, to plan challenging practical projects.

#### **4. Practical task - Using wood to manufacture components**

Pupils will learn to use marking out tools, woodworking equipment and tools, to manufacture components to accurate tolerances.

#### **5. Practical task - Assembling wooden structures**

Individuals will learn skills necessary to produce simple and complex structures using a variety of joints and various mechanical fastening devices, tools and techniques. They will be able to carry out visual and functional checks to confirm that the finished assembly meets the required standard.



#### **6. Creating engineering drawings using a computer system**

Pupils will learn to correctly set up, and use, computer CAD systems to create engineering drawings to national and international standards.



### Assessment

The content of the course is taught and assessed over the 2-year GCSE period. The pupils do not sit an external examination, however the course does require individuals to produce a thorough, in-depth written portfolio of evidence. The portfolio will need to demonstrate the skills that they have learnt and showcase the practical work that they have completed.



### Qualification

The Level 2 qualification is the equivalent to 2 GCSEs A to C grade.

There is no examination.



# Ieithoedd Tramor Modern

## Modern Foreign Languages

Cynigir dwy iaith at safon TGAU yn yr Adran Ieithoedd Tramor Modern sef Ffrangeg a Sbaeneg. Mae'r cyrsiau yn y ddwy iaith yn parhau â gwaith Cyfnod Allweddol Tri, gyda'r disgylion yn sefyll arholiadau TGAU CBAC. Mae'r cyrsiau yn sail i astudiaeth bellach o ieithoedd yn y chweched dosbarth.

Mae'r adran Ieithoedd Tramor Modern wedi ennill ei phlwyf gyda chanlyniadau TGAU rhagorol gyda disgylion o bob gallu.

### **Amcanion Cyffredinol TGAU Ffrangeg a Sbaeneg.**

Nod yr adran wrth gynnig cyrsiau TGAU Ffrangeg a Sbaeneg yw rhoi'r cyfle i'r disgylion ddatblygu yn ddinas sy'n gallu cyfathrebu ag eraill yn hyderus ac sy'n arddangos sgiliau ieithyddol a fydd yn y dyfodol yn fanteisiol ym myd gwaith. Dengys ystadegau diweddar bod ennill cymhwyster mewn ieithoedd yn fanteisiol wrth wneud cais am swyddi yn y meysydd canlynol :

Busnes	Trafnidiaeth a theithio
Gweithgynhyrchu	Gwasanaethau cymunedol a chymdeithasol
Bancio/cyllid	Gweinyddiaeth
Masnach	Addysg
Gwestai a thai bwyta	Sefyliadau Rhyngwladol
Byd iechyd	

Mae astudio Ffrangeg a / neu Sbaeneg i safon TGAU yn cyfoethogi ymwybyddiaeth Ewropeaidd y disgylion ac yn cynrig sgiliau sy'n addas i'r economi byd-eang.

### **Wrth ddilyn cwrs TGAU Ffrangeg a / neu Sbaeneg, amcanir:**

- y bydd y disgylion yn mwynhau'r profiad cadarnhaol o ddysgu ieithoedd tramor
- y parheir â dulliau dysgu rhyngweithiol yr adran gan ddatblygu sgiliau rhyngbersonol y disgylion
- y datblygir ymhellach y cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli rhwng yr adran â disgylion mewn ysgolion yn y gwledydd lle siaredir Ffrangeg a Sbaeneg
- y galluogir y disgylion i ddefnyddio Ffrangeg neu Sbaeneg yn naturiol mewn sefyllfaoedd ymarferol
- yr addysgir y disgylion am ddiwylliant a gwareiddiad gwledydd lle siaredir Ffrangeg neu Sbaeneg, trwy waith yn yr ystafell ddosbarth a thrwy ymweliadau addysgol â'r gwledydd hynny
- y manteisir ar gyfleoedd i hybu agwedd positif tuag at ddysgu ieithoedd tramor a thuag at siaradwyr ieithoedd tramor modern

- y datblygir ymwybyddiaeth y disgylion o natur dysgu iaith a thelir sylw i sgiliau astudio amrywiol
- y datblygir sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y disgylion wrth wneud defnydd o'r rhyngrwyd, e-bost, web cam, pecynnau meddalwedd arbenigol, fideo a theledu lloeren.

### **Cynnwys y Cyrsiau TGAU Ffrangeg a Sbaeneg**

Bydd y disgylion yn dysgu sut i drafod agweddau gwahanol o'u bywydau trwy gyfrwng y Ffrangeg neu'r Sbaeneg. Hyfforddir hwy i ymdopi mewn sefyllfaoedd twristiaeth a byd gwaith tramor. Disgwylir iddynt hefyd ddysgu am faterion byd-eang. Rhestrir themau cyrsiau TGAU Ffrangeg a Sbaeneg isod:

Bydd y disgylion yn dysgu sut i drafod agweddau gwahanol o'u bywydau trwy gyfrwng y Ffrangeg neu'r Sbaeneg. Hyfforddir hwy i ymdopi mewn sefyllfaoedd twristiaeth a byd gwaith tramor. Disgwylir iddynt hefyd ddysgu am faterion byd-eang. Rhestrir themau cyrsiau TGAU Ffrangeg a Sbaeneg isod:

- HUNANIAETH A DIWYLLIANT
- CYMRU A'R BYD
- CYFLOGAETH AC ASTUDIAETH

### **Asesu**

Arholir y pedair sgil ieithyddol yn Ffrangeg a Sbaeneg. Mae gwerth yr asesu ar gyfer pob sgil fel a ganlyn :

UNED 1 – SIARAD	25%
UNED 2 – GWRANDO	25%
UNED 3 – DARLEN	25%
UNED 4 – YSGRIFENNU	25%

**Mae natur yr asesu wedi newid yn llwyr o fewn ITM ers Medi 2016. Nid oes Asesiadau dan Reolaeth bellach yn rhan o'r dull asesu. Asesir yr holl gwrs ar ddiwedd blwyddyn 11 fel arholiad terfynol. Bydd yr arholiad llafar yn cael ei chynnal yn cael ei farcio'n allanol.**

Dylai disgylion sy'n dangos addewid mewn Ieithoedd Tramor Modern yn ystod blwyddyn 9 ystyried astudio Ffrangeg a Sbaeneg ar gyfer TGAU. Bydd hyn yn galluogi disgylion i barhau i astudio ieithoedd ymhellach, ac ni ddylid ystyried astudio dwy cyfyngu ar opsiynau.

Mae astudio iaith yn golygu dysgu sgil newydd a fydd yn aros gyda'r disgylion am oes, ymhell y tu hwnt i'w hastudiaethau TGAU.



# Leithoedd Tramor Modern

## Modern Foreign Languages

The Modern Foreign Languages Department currently offers the pupils the opportunity to study two languages to GCSE level namely French and Spanish. Both courses continue the work covered in both languages in Key Stage Three and the pupils will sit GCSE examinations set by the WJEC Examination Board. The courses provide a foundation for the further study of languages in the sixth form.

The Modern Foreign Languages Department has a proven track-record of achieving excellent GCSE results with pupils of all abilities.

### Aims of the GCSE French and Spanish courses

The department's main aim is to provide the opportunity for the pupils to develop into well-rounded citizens who are able to communicate confidently with others and who can display wide ranging linguistic skills which will benefit them in future years in their chosen careers. Recent statistics show that a linguistic qualification is advantageous when applying for jobs in a variety of fields such as:

Business	Transport and travel
Manufacturing	Public and social services
Banking and finance	Administration
Commerce	Education
Hotels and restaurants	International Organisations
Health	

Studying French and / or Spanish to GCSE level will increase the pupils' awareness of Europe and their skills will enable them to contribute to the world-wide economy.

### By following a GCSE course in French / and or Spanish it is envisaged that:

- the pupils enjoy the positive experience of learning a foreign language
- the development of the pupils' interpersonal skills will continue as the pupils benefit from the department's interactive learning and teaching styles
- established contacts between the department and pupils in French and Spanish speaking countries will be further developed
- the pupils will be able to use French and Spanish naturally in practical situations
- an insight will be given into the culture and civilisations of countries where French and Spanish are spoken, by means of class-work and educational visits

- a positive attitude towards learning foreign languages and towards foreign language speakers will be encouraged
- the pupils' awareness of the nature of language learning and various study skills will be developed
- the pupils' information technology and communication skills will be developed as use is made during the GCSE courses of the internet, e-mail, web cam, specific software packages, video and satellite television.

### Content of the GCSE French and Spanish Courses

The pupils will learn how to discuss various aspects of their daily lives through the medium of French or Spanish. They will be trained to cope in tourist situations and in the world of work abroad. It is also expected that they will learn about world-wide issues. The thematic units of the GCSE courses in French and Spanish are as follows:

- IDENTITY AND CULTURE
- WALES AND THE WORLD
- CURRENT AND FUTURE STUDY AND EMPLOYMENT

Within the department, a wide range of teaching and learning strategies are implemented in order to nurture the pupils' enjoyment and confidence in the foreign language.

### Assessment

The four language skills will be examined in French and Spanish. The weighting for each skill is as follows:

UNIT 1 – SPEAKING	25%
UNIT 2 – LISTENING	25%
UNIT 3 – READING	25%
UNIT 4 – WRITING	25%

**The nature of assessment within MFL has changed since September 2016. There are no longer any Controlled Assessment tasks to be completed. All skills are assessed in a final examination in year 11. The speaking component will be examined by the classroom teacher and will be marked externally by a WJEC marker.**

Pupil who show promise in Modern Foreign Languages during year 9 should seriously consider studying both French and Spanish at GCSE. This will enable pupils to continue with language study further and studying two languages should no way be thought of as narrowing options. Learning a language means acquiring a new skill which will stay with them for life, far beyond their GCSE examination study.



# Mathemateg

## Mathematics

### Amcanion Cyffredinol

O Fedi 2015 mi fydd holl yr ddisgyblion yng Nghymru yn cael dau gymhwyster TGAU mathemateg (TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Mathemateg).

Bydd **TGAU Mathemateg** yn adeiladu ar y lefelau mathemateg sy'n ddisgwylledig ar ddiwedd CA3 ac yn symud ymlaen ohonynt nhw trwy Raglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol Mathemateg. Ynghyd â'r TGAU Mathemateg – Rhifedd, mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio mathemateg naill ai ar lefel UG neu safon Uwch.

Bydd **TGAU Mathemateg - Rhifedd** yn adeiladu ar y lefelau rhifedd sy'n ddisgwylledig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ac yn symud ymlaen ohonynt nhw trwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Ynghyd â'r TGAU Mathemateg, mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio mathemateg naill ai ar lefel UG neu safon Uwch.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut y bydd y cynnwys mathemategol yn cael ei rannu rhwng y ddau gymhwyster TGAU mathemateg (TGAU Mathemateg – Rhifedd a TGAU Mathemateg).


TGAU	Mathemateg - Rhifedd	Mathemateg	
Cynnwys	Rhif, Mesur ac Ystadegau a rhai agweddau ar Algebra, Geometreg a Thebygolrwydd	Holl gynnwys TGAU Mathemateg - Rhifedd	Algebra, Geometreg a Thebygolrwydd ychwanegol
Ffocws yr asesu	Defnyddio'r cynnwys uchod yn ei gyd-destun	-	Defnyddio'r cynnwys uchod yn ei gyd-destun  Sgiliau trefniadol mewn sefyllfaoedd heb gyd-destun neu ag ychydig iawn o gyd-destun ar gyfer yr holl gynnwys

### Manylion y cwrs

Bydd disgylion o bob gallu yn dilyn cwrs sy'n addas ar gyfer eu lefel mathemategol. Yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol fe rennir pob cwrs yn dri amcan asesu (AA), sef:

Amcanion Asesu		Pwysoli	
		Mathemateg - Rhifedd	Mathemateg
AA1	Galw i gof a defnyddio eu gwybodaeth o'r cynnwys penodedig	15%-25%	50%-60%
AA2	Dethol a defnyddio dulliau mathemategol mewn amrywiol gyd-destunau	50%-60%	10%-20%
AA3	Dehongli a dadansoddi problemau a chynhyrchu strategaethau i'w datrys	20%-30%	25%-35%

Bydd defnydd eang o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn rhan annatod o gyflwyniad y cwrs yn arbennig felly wrth gwblhau ymchwiliadau ystadegol. Bydd pob disgyl unai yn dilyn y cwrs T.G.A.U sy'n berthnasol i'w allu neu'r cwrs lefel mynediad yn achos y rhai sy'n gweithio ar lefel mwy elfennol.



# Mathemateg

## Mathematics

### Manylion Asesu

Ar gyfer pob cwrs T.G.A.U mae'r manylion fel a ganlyn:  
 Dau bapur ysgrifenedig  
 Bydd y papurau ysgrifenedig yn asesu'r holl amcanion asesu.

Tair haen gofrestru (uwch, canolradd a sylfaenol)

Uwch	A*	A	B	C	D	E	F	G
Canolradd			B	C	D	E		
Sylfaenol					D	E	F	G

### Asesiad Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd.

Bydd angen ir disgylion eistedd 2 arholiad ar gyfer pob cymhwyster. Hyd bob papur arholiad fel a ganlyn:

### Uned 1: Heb gyfrifiannell. Uned 2: Caniateir Cyfrifiannell.

#### Arholiadau Ysgrifenedig.

**Uwch:** 1 awr 45 munud (80 marc)

**Canolradd** 1 awr 45 munud (80 marc)

**Sylfaenol** 1 awr 30 munud (65 marc)

50% o'r cymhwyster am bob uned.

Mae'r cwrs **Lefel Mynediad** yn cael ei ystyried yn addas i'r disgylion hynny sydd heb gyrraedd lefel 3 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae'r cwrs yn un strwythedig sy'n cynnig cyfleoedd amrywiol i ddysgu mathemateg mewn cyd – destun perthnasol. Fe asesir y cwrs trwy gyfuniad o ddulliau, a hynny dros gyfnod o ddwy flynedd academaidd. Fe grisialir y wybodaeth yn y tabl isod:

Asesiad	Cyfraniad at y cyfanswm
Profion ysgrifenedig yn y dosbarth	48% - sef 3 prawf o 16% yr un
Profion clywedol	5 % - sef 3 prawf o 1.66% yr un
Gweithgareddau ymarferol	6% - sef 3 prawf o 2% yr un
Tasgiau ymchwiliol	20 % - sef un tasg 20%
Arholiad allanol	21 %

### Assessment

All G.C.S.E courses are comprised of the following assessment elements:

Two written papers.

There is no coursework

3 tier of entry (higher, intermediate and foundation)

<b>Higher</b>	A*	A	B	C				
<b>Intermediate</b>			B	C	D	E		
<b>Foundation</b>					D	E	F	G

### **Examination for GCSE Mathematics and GCSE Mathematics – Numeracy.**

Pupils will be required to sit two papers for each GCSE. The duration of each paper is as follows:

#### Unit 1: Non calculator. Unit 2: Calculator allowed.

#### Arholiadau Ysgrifenedig.

**Higher:** 1 hour 45 min (80 mark)

**Intermediate** 1 hour 45 min (80 mark)

**Foundation** 1 hour 30 min (65 mark)

50% of qualification.

### **Entry Level Mathematics**

The Entry Level Mathematics course is appropriate for those pupils who have failed to reach level 3 or 4 of the National Curriculum at the end of Key Stage 3. The course is well structured and provides opportunities to learn mathematics in a relevant and engaging context. The course assessment is comprised of a number of elements over a two-year period. This is summarised below:

Assessment Component	Weighting
Intermediate tests	48 % - 3 tests of 16%
Aural tests	5% - 3 tests of 1.66%
Practical exercises	6% (3 x 2%)
Investigative tasks	20%
External examination	21%

# Mathemateg

## Mathematics

### General objectives

From September 2015 all pupils in Wales will be required to sit two GCSE examinations in the subject. (GCSE Mathematics and GCSE Mathematics – Numeracy)

**GCSE Mathematics** will build on and progress from the levels of mathematics expected at the end of KS3 through the National Curriculum Programme of Study for Mathematics. Whilst GCSE in Mathematics – Numeracy will assess the mathematics that learners will need in their everyday lives, in the world of work, and in other general curriculum areas, GCSE Mathematics will extend to aspects of mathematics needed for progression to scientific, technical or further mathematical study.

**GCSE Mathematics – Numeracy** will build on and progress from the levels of numeracy expected at the end of Key Stage 3 through the Literacy and Numeracy Framework and will assess the mathematics that learners will need in their everyday lives, in the world of work, and in other general curriculum areas.

The table below shows how the mathematical content is distributed within these two GCSE's.


GCSE	Mathematics - Numeracy	Mathematics	
<b>Content</b>	Number, Measure and Statistics plus some aspects of Algebra, Geometry and Probability.	All the content of GCSE Mathematics Numeracy	Additional Algebra, Geometry and Probability.
<b>Assessment focus</b>	The application of the above content in context	-	The application of the above content in context  Procedural skills in situations that are context free or involve minimal context for all content.

### Course Details

Each pupil will follow a course which best reflects his level of ability. In line with the requirements of the National Curriculum, each course consists of four assessment objectives (AO), namely:

Assessment Objectives		Weighting	
		Mathematics - Numeracy	Mathematics
AO1	Recall and use their knowledge of prescribed content.	15%-25%	50%-60%
AO2	Select and apply mathematical methods	50%-60%	10%-20%
AO3	Interpret and analyse problems and generate strategies to solve them.	20%-30%	25%-35%

Information Technology and Communication will be an integral part of the course, both in its explication and execution. This is especially so with regard to statistical investigations. Each pupil will either follow the G.C.S.E course which best reflects his ability, or, in the case of those working at a more rudimentary level, the Entry Level Mathematics course.



# Saesneg - laith

## English Language

### **Nod**

Prif nod y cwrs yw arddangos sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu sy'n hanfodol wrth gyfathrebu ag eraill yn hyderus, yn effeithiol, yn gywir ac yn briodol. Rydym hefyd awyddus i annog y myfyrwyr i fod yn ddarllenwyr brwd, deallus ac aeddfed eu hymateb. Arholir y cwrs fel un haen syn cynnwys y graddau A\* i G.


### **Manylion y Cwrs**

Fel rhan o'r cwrs sy'n ymdrin â siarad a gwrandu darllen ac ysgrifennu caiff y myfyrwyr y cyfle i ddatblygu'r sgiliau canlynol:

- arddangos eu medrusrwydd wrth gael gafaell ar wybodaeth neu ei hadfer o amrywiaeth eang o destunau ysgrifenedig a dynamig/digidol, gan feithrin dealltwriaeth gyffredinol o'r testun, crynhoi a chyfuno'r cynnwys, deall yr ystyr a fwriadwyd a gwerthuso ei ddiben;
- deall effaith amrywiadau mewn iaith, dethol ac addasu eu llafaredd a'u hysgrifennu yn ôl sefyllfaoedd, dibenion a chynulleidfaedd gwahanol, datblygu eu sgiliau er mwyn diwallu eu hanghenion personol eu hunain yn ogystal ag anghenion cyflogwyr ac addysg bellach fel y gallant gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a'r byd gwaith; a
- datblygu sgiliau rhesymu geiriol a'u gallu i feddwl mewn ffordd adeiladol a beirniadol wrth ymateb i destunau ysgrifenedig a digidol/dynamig.

### **Asesiad**

Bydd yr asesiad yn cynnwys 2 asesiad llafar (20%) a 2 bapur arholiad ysgrifenedig (80%)



### **Aims**

